DATGANIAD I'R WASG
Dydd Mawrth 1 Mehefin 2010

Y CWTSH CYMRAEG

Heddiw yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru yng Ngheredigion bydd Seremoni Medal y Dysgwyr yn cael ei chynnal am 2:30yp. Bydd parti i longyfarch y buddugol yn digwydd yn y Cwtsh Cymraeg ar Faes yr Eisteddfod, menter newydd i'r Ŵyl eleni.

Gydol y dydd yn y Cwtsh Cymraeg bydd cyfuniad o ddigwyddiadau amrywiol yn cael eu trefnu ar gyfer dysgwyr Cymraeg, yn ogystal â gweithgareddau llenyddol. Esbonia Meinir Ebbsworth, Cadeirydd y Pwyllgor Llenyddiaeth Leol:

"Yn draddodiadol nid oes Pafiliwn Llenyddiaeth ar Faes Eisteddfod yr Urdd, ac eleni roeddem yn awyddus i osod ffocws ar lwyddiannau llenyddol aelodau'r Urdd, a chael lleoliad i gynnal gweithdai a sesiynau cwrdd ag awdur, er enghraifft. Roedd y Pwyllgor Dysgwyr Lleol yn fwy na pharod i weithio law yn llaw â ni. Yfory, (dydd Mercher), fe fydd Sgwad Sgwennu Ceredigion yn cyfarfod am y tro cyntaf yn y Cwtsh. Hefyd mae gennym arddangosfa i gyd-daro â'r sioe gynradd 'Lledrith Llew', sy'n rhoi ffocws ar fywyd a gwaith T Llew Jones. Mae gennym wal graffiti lle bydd Eisteddfodwyr yn cael eu hannog i ysgrifennu eu hoff eiriau, ac arwyddion 'Cleber y Cardi' ar y Maes, a fydd yn rhoi blas o dafodiaith Ceredigion i ymwelwyr, yn ogystal â'r ffurfiau safonol.

O ddysgwyr Cymraeg i'r rhai sy'n frwdfrydig dros lenyddiaeth Gymraeg - rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu i'r Cwtsh Cymraeg."

Yn ôl Aled Siôn, Cyfarwyddwr Celfyddydau ac Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru:

"Mae sefydlu'r Cwtsh Cymraeg ar y Maes i groesawu dysgwyr yn fonws eleni, ac wrth gyfuno hyn â gweithgareddau llenyddol mae'n sicrhau pafiliwn cyffrous gydol yr wythnos. Mae llawer o ymwelwyr yr Eisteddfod yn ddi-Gymraeg, neu'n ddysgwyr, ac wrth gwrs, nid oes angen unrhyw iaith i gystadlu mewn mwy na hanner cystadlaethau'r Eisteddfod. Mae offer cyfieithu ar gael i'w defnyddio yn y Pafiliwn, felly os ydych am wylio'r seremoni y prynhawn 'ma, neu rywfaint o'r cystadlu yn ystod y dydd, cofiwch gasglu eich offer o Swyddfa'r Eisteddfod."

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.

- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 ym Mae Abertawe ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
Tuesday 1 June 2010

CWTSH IN CEREDIGION

Today at Urdd Gobaith Cymru's National Eisteddfod in Ceredigion the Welsh Learner's Medal ceremony will be held at 2:30pm. A party to congratulate the winner will be held in the Cwtsh Cymraeg on the Eisteddfod Maes, a new venture at this year's festival.

All day in Cwtsh Cymraeg there will be a combination of activities for Welsh learners, and literary activities. Meinir Ebbsworth, Chair of the Local Literary Committee, explains:

"Traditionally there is no Literary Pavilion on the Urdd Eisteddfod Maes, and this year we were keen to focus on the literary achievements of the Urdd members and have a space to hold workshops and meet the author sessions for example. The local Learners Committee was more than happy to work with us on this. Tomorrow, Sgwad Sgwennu Ceredigion (Writing Squad) will meet for the first time in the Cwtsh. We also have an exhibition to coincide with the primary show 'Lledrith Llew', focusing on the life and work of T Llew Jones. We have a graffiti wall where Eisteddfodwyr will be encouraged to write their favourite words, and 'Cleber y Cardi' signs on the Maes, will offer visitors a taste of Ceredigion's dialect as well as the standard form.

From Welsh learners to Welsh literary lovers – we look forward to welcoming you at the Cwtsh Cymraeg."

Aled Siôn, Urdd Gobaith Cymru's Director for the Eisteddfod and the Arts says:

"Having the Cwtsh Cymraeg on the Maes to welcome Welsh learners is a bonus this year, and combining this with literary activities ensures a vibrant pavilion all week. Many of the festival's visitors are non Welsh speakers or learners, and of course you don't need language to compete in over half the Eisteddfod's competitions. Translation equipment is available for the Pavilion, so if you do go and see the ceremony this afternoon, or any of the competitions during the day, then remember to pick up a headset from the Eisteddfod Office."

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.

- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.